

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod Chwefror 2018 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Wyn Coates	
Iestyn Harris	Eifion Williams	
Sarah Riley	Nerys John	
Casi Roberts	Gruff John	
	Peter Simpson	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Llywelyn Williams drwy groesawu'r aelodau. Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Mair Bebb Jones, Mei Gwilym ac Aled Emyr. Estynodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Sir i gyflwyno ei adroddiad.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD	
2.1	Cafwyd gwybodaeth diweddariad ar lifogydd Penybryn a'r tirlithriad. Disgwylir adroddiad oddi wrth Gyngor Gwynedd yn fuan. Mae gwaith i'w wneud ac mae grant wedi ei sicrhau ar gyfer hynny. Dywedodd hefyd ei fod wedi Diolch yn gyhoeddus i'r rhai fuodd yn gyfrifol am y gwaith glannau yn dilyn y digwyddiad.	
2.2	Dywedodd ei fod wedi derbyn cais gan drigolion ger y Nant am Bin Grit ar gyfer tywydd rhewllyd. Trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd bod y clerc yn gwneud ymholiad ar gyfer archebu bin.	CLERC
2.3	Mae amryw o gynlluniau ar y gweill i'r ardal Lan y Môr, gyda'r cynllun atal llifogydd a'r toiledau newydd, pwysodd ar yr aelodau i wneud yn fawr o'r cyfle.	
2.4	Cyfeiriodd bod galw o fewn y pentref ar gyfer defibulators - mae'r mater hwn eisoes wedi ei godi; penderfynwyd gosod y testun ar agenda Eifion Williams i wneud ymholiadau ar bris pendant.	EW/CLERC
2.5	Trafferthion Cae Ysgol – dywedodd bod cyfraniad ariannol dienw wedi ei dderbyn ar gyfer gwneud y gwaith atgyweirio.	
2.6	Codwyd y mater o "Life bouys" a arferai fod ar Lan y Môr – penderfynwyd gosod y testun hwn ar agenda cyfarfod mis Mawrth.	CLERC
2.7	Gofynnwyd iddo a oedd yn gwybod pam bo safle llync-dwll wedi ei ffensio er bod y llwybr bellach wedi ei agor. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod hyn yn amserol gan fod Anwen Lyn wedi bod yn llwyddiannus o gael coed ar gyfer eu plannu a byddai'r rhain yn gallu cael eu plannu ar y lleoliad i wella'r difrod wedi'r digwyddiad.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

2.8	<p>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â biniau ailgylchu sydd yn cael eu taro gan gerbydau ar Ffordd Gaernarfon. Mae hyn yn ganlyniad o fod cerbydau yn gorfod goddiwedda cerbydau sydd wedi eu parcio a bod biniau ailgylchu ar ddiwrnod casglu yn y ffordd ac efallai yno am rai dyddiau. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn a fyddai modd llythyru'r trigolion i'w hatgoffo o gadw'r binnau wedi'r casgliad fod. Hefyd efalla byddai modd i farcio rhan o'r gilfan gyferbyn a'r tai i fod yn ardal lle byddai biniau glas yn gallu eu rhoi a'r ddiwrnod casglu a biniau gwyrdd drwy yr amser. Y Clerc i anfon at y Cyngor.</p>	CLERC
2.9	<p>Dywedodd y Cyngorydd Nerys John bod angen cael copi o fap llwybrau'r pentref wedi eu nodi i gadarnhau pa lwybrau a phâ ran o'r llwybrau sydd yn cael eu cynnal gan y contractwr. Y Cadeirydd i sicrhau'r cynllun, Cyngorydd Eifion Williams i ymweld â'r contractwr er mwyn marcio'r lleoliadau. Mater hwn i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r diweddariad a'r Allt Gam.</p>	CLERC
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	<p>Casi Roberts eitemau 4.3 Cais am gymorth ariannol Ysgol Feithrin 8.1 Cais Cynllunio Rallt a 11.0 Safle Bws.</p>	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	<p>Rhodddwyd eglurhad gan y Swyddog Ariannol mai £150 oedd y taliad arfaethedig i Gynghorwyr; hefyd cyfeiriodd at lythyr Luned Evans o Un Llais Cymru bod angen cydnabod hyn ar y gyllideb drafft. Cadarnhawyd bod hyn wedi ei wneud a bod y praesept wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd.</p>	SWYDDOG ARIANNOL
4.2	<p>Cyflwynodd y gwariant ac adroddiad mis Ionawr. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.</p>	
4.3	<p>Trafodwyd ceisiadau am gymorth ariannol. Dywedodd Y Swyddog Ariannol bod £4500 ar i gael i'w rannu. Penderfynwyd ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y Goriad - £200 Clwb Peldroed - £1000 1st Felinheli Rainbows - £50 3rd Portdinowric Guides - £100 Cylch Meithrin - £750 Cyfeillion Ysgol y Felinheli - £300 Ras Hwyllo £200 Clwb y Felin (Henoed) - £100 Brownies - £50 Clwb Peldroed ieuencid £300 	EW/CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Gŵyl y Felin - £1000	
4.4	Adroddiad Is-bwyllgor Cyflogaeth - Gadawyd y Clerc a'r Swyddog Ariannol y cyfarfod tra roedd y drafodaeth yn mynd yn ei blaen. Penderfynwyd bod argymhellion adroddiad Gwilym Rippon yn cael ei derbyn. Bydd cyflog y cleric yn codi i £15.25 yr awr, y Swyddog Ariannol yn codi i £13.48 yr awr a cyflog y Gofalwraig yn codi i £8.75 yr awr. Mae'r codiad yn ddilys o Ebrill 2017. Bydd trefn gwerthuso yn cael ei fabwysiadu, bydd y Clerc yn gorfod dilyn hyfforddiant a bydd manylder pendant o amserlen gwaith ysgrifenedig y Clerc hefyd yn cael ei fabwysiadu.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Mis Rhagfyr 2017. Mae man newidiadau angen eu gwneud i gofnodion Mis Ionawr. Y Clerc i wneud y rhain ac anfon y cofnodion ymlaen i'r cynghorwyr wedi hynny.	CLERC
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cadeirydd ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau ar y neuadd, y gost, y dyfynbrisiau a'r cymariaethau anfonebau a'r amcan brisiau a'r eglurhad. Gweler Atodiad A.	
6.2	Cyflwynwyd anfonebau oedd angen eu talu: Owen a Palmer - gwaith trydan, Amazon am ffaniau a thap ar gyfer lloriau. Cytunwyd bod y rhain yn cael eu talu.	
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Dim	
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
8.1	C17/1249/20/LL - Rhannu annedd presennol i greu dwy uned gwyliau ar osod gan gadw annedd deulawr ynghyd a chodi lefel y to 600mm (rhannol ol weithredol) cynllun diwygiedig - Melan, Plot 4 Caernarfon Road, Y Felinheli LL56 4RZ GWRTHWYNEBIAD yn unol â'r cais blaenorol gor-ddatblygiad ar Ffordd Gaernarfon ac yn cynyddu pwysau traffig a pharcio. Bydd y cynllun yma hefyd yn cael effaith ar y cynllun Lon Las sydd ar hyn o bryd wedi ei rhoi o'r neilltu oherwydd diffyg cyllid. Mae'r cynllun lôn las yn cysylltu pen y brys a lon Dinas ger y feddygfa ac os byddai cerbydau yn cael defnyddio'r rhan yma byddai risg o wrthdrawiad a cherddwyr. Byddai rhaid i'r ymgeisydd gael hawl y Cyngor Cymuned I gael croesi'r ffordd las.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

8.2	C18/0100/20/LL – Dymchwel y porth car a’r storfa bresennol a chodi modurdy newydd, storfa a swyddfa yn eu lle – Rallt, Bryn y Waen, Y Felinheli – LL56 4QJ – DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
9.1	Dim i’w Adrodd. Y Clerc i anfon ar y Contractwr Gwair i’w atgoffa bydd angen torri gwair y fynwent yn Mis Mawrth oherwydd bod Sul y Blodau a Phasg yn gynt eleni.	CLERC
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Eglurwyd bod gwaith o farcio'r Maes Parcio wedi ei ohirio oherwydd yr eira. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yfory sef y 14 o Chwefror. Diolchwyd i’r Cynghorwyr Sarah Riley a Nerys John am hysbysu’r trigolion. Diolch i’r Cynghorydd Eifion Williams am fod yn barod i fod ar y safle.	
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
11.1	Trafodwyd y Mater hwn o dan eitem 2.0.	
11.2	Cyflwynwyd pris am osod cysgodfan yn Aberpwl. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd modd i wneud y gwaith am oddeutu dau fis ond byddai cael cadarnhad oddi wrth Cludiant Cyhoeddus Gwynedd ei angen. Y Clerc i drefnu ymweliad safle gyda swyddog o Gludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd a’r Contractwr.	CLERC
11.3	Y Cynghorydd Nerys John wedi dangos diddordeb mewn eistedd ar grwp mynediad arfon.	NJ
12.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
12.1	Dim adroddiad wedi ei dderbyn ynglŷn ag archwiliad Ffordd Caernarfon. Y Clerc i Wneud ymholiadau	CLERC
12.2	Trafodwyd gorchmynion gwahardd parcio arfaethedig o fewn y pentref. Yn yr Hen Gei Llechi, ar Ffrodd Brynffynnon a ger Yr Ysgol. Cafwyd adroddiad gan drigolyn am y cynnig o osod llinellau melyn dwbl ar Ffordd Brynffynnon. Roedd y Cyngor yn gytŷn nad oedd manylder digonol yn rhan o’r ymgynghoriad pam roedd y ddau ardal cyntaf wedi eu hadnabod fell lleoliadau angenrheidiol ar gyfer gwaharddiadau yn enwedig bod rhai ardaloedd wedi eu hadnabod gan y Cyngor hwn eisoes. Nid oedd gwrthwynebiad i’r gwaharddiadau arfaethedig ger yr ysgol. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

13.0	PROSIECTAU	
	Dywedwyd bod angen dosbarthu taflenni ynglŷn â chasglu sbwriel a chadw'r Felinheli yn daclus er mwyn trio codi grwpiau bach i wneud y gwaith hwn.	
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Y Clerc i wneud ymholiadau a Chyngor Gwynedd am y diweddariad.	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
15.1	Gwahoddwyd y cynghorwyd i gyfarfod a'r Cadeirydd i ystyried Cynllun Drafft Gwydnwch Cymunedol y pentref er mwyn sicrhau bod aelodau'r Cyngor yn ei ddeall cyn bod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal. Mae angen cael cynllun drafft yn ei le erbyn mis Gorffennaf.	DW/EW
15.2	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod rhwng Cefin Edwards o Gyngor Gwynedd ac aelodau o'r Clwb Hwyllo ynglŷn â'r cynllun atal llifogydd ar Lan y Môr. Roedd y Clwb hwyllo yn ffafriol. Bellach mae'r swyddog angen mewnbwn y Cyngor Cymuned ar wneuthuriad y wal ac yn y blaen. Penderfynwyd ar y mynedfeydd a hefyd i osod bwnd pridd lle yn bosib a wal blociau llechi lle nad oedd yn bosib, hefyd i gyflwyno lleoliadau parcio. Y Cynghorydd Daniel Williams i anfon at Cefin Edwards gyda'r penderfyniad.	DW
16.0	GWEFAN	
	Gwaith gosod cofnodion y Cyngor Cymuned i ddechrau ar yr 19 o Chwefror bydd y gwaith yn cymryd oddeutu bythefnos i'w gwblhau. Manylion y Cynghorwyr bellach ar y wefan newydd.	
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2017 - i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth - Cynghorydd Pete Simpson i adrodd yn ôl.	PS
17.2	Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer ffiniau Sir Gwynedd-cynigion draft - i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth - Cynghorydd Iestyn Harris a'r Cynghorydd Daniel Williams i adrodd ar y mater.	IH/DW
17.3	General Data Protection Regulation - i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth - Cynghorydd Iestyn Harris i adrodd ar y mater.	IH
17.4	Gwasanaeth Ieuencid i'r Dyfodol - i'w drafod mis nesaf	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

17.5	Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol – y wybodaeth i'w roi ar y wefan.	CLERC
17.6	Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig Ardal Arfon 2018 – trafodwyd y mater hwn dan eitem 12.0	
17.7	Mae hyfforddiant wedi ei drefnu gan Planning aid er mwyn hysbysu cynghorwyr ar sut mae gwrthwynebu neu rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio. Roedd Nerys John yn awyddus i fynd ac wedi cofretru.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:30	
Llofnod:		Dyddiad: